**PWYLLGOR CABINET CYNGOR RHONDDA CYNON TAF**
**PWYLLGOR CYNLLUNIO A DATBLYGU**

Cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd Dydd Iau, 3 Medi 2020 am 3.00 pm.

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Pwyllgor Cynllunio a Datblygu Aelodau oedd yn bresennol:-:-

Y Cynghorydd S Rees (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd G Caple | Y Cynghorydd J Bonetto |
| Y Cynghorydd P Jarman | Y Cynghorydd D Grehan |
| Y Cynghorydd G Hughes | Y Cynghorydd J Williams |
| Y Cynghorydd R Yeo | Y Cynghorydd D Williams |

## Swyddogion oedd yn bresennol

Mr J Bailey, Pennaeth Cynllunio
Mr S Zeinali, Rheolwr Datblygu Priffyrdd a Mabwysiadu Priffyrdd
Mr S Humphreys, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol

## Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol eraill oedd yn bresennol

Y Cynghorydd R Bevan
Y Cynghorydd J James

**280 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn gan Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol S. Powderhill a W. Owen.

**281 DATGAN BUDDIANT**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

**282 DEDDF HAWLIAU DYNOL 1998 A PHENDERFYNIADAU RHEOLI DATBLYGU**

**PENDERFYNWYD** nodi y dylai Aelodau o'r Pwyllgor, wrth benderfynu materion rheoli datblygu ger eu bron, roi sylw i'r Cynllun Datblygu ac, i'r graddau y bo hynny yn berthnasol, i unrhyw ystyriaethau perthnasol eraill. Rhaid i Aelodau, wrth ddod i benderfyniadau, sicrhau nad ydyn nhw'n gweithredu mewn modd sy'n anghyson â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol fel y'i hymgorfforwyd mewn deddfwriaeth gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

**283 DEDDF LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL (CYMRU) 2015**

**PENDERFYNWYD** nodi bod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i gynnal datblygiadau cynaliadwy yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac i weithredu mewn modd sy'n anelu at sicrhau y caiff anghenion y presennol eu diwallu heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

**284 COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau'r cofnodion o gyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gynhaliwyd ar 16 Gorffennaf, 2020 yn rhai cywir.

**285 NEWID I DREFN YR AGENDA**

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'r agenda yn cael ei hystyried mewn trefn wahanol yn unol â'r manylion yn y cofnodion isod.

**286 CAIS RHIF: 20/0415**

**Datblygu Annedd Sengl. 1 MAES ALEXANDRA, ABERCYNON, ABERPENNAR, CF45 4YA**

Darllenodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys sylwadau ysgrifenedig a dderbyniwyd gan Mr Gordon Williams a oedd yn gwrthwynebu'r cais.

Aeth Pennaeth Materion Cynllunio ymlaen i gyflwyno'r cais i'r Pwyllgor a rhannodd gwybodaeth ar lafar mewn perthynas â'r diwygiadau sydd eu hangen mewn perthynas â gwall sydd wedi'i nodi yn Amod 3 o'r adroddiad i sicrhau bod y geiriad cywir yn cael ei nodi sef 'Alexandra Place' yn hytrach na 'Alexander Place'.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** y Pwyllgor gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu, yn amodol ar ychwanegu Amod Rhif 3 sydd wedi'u hamlinellu uchod.

**287 CAIS RHIF: 20/0293**

**Ailadeiladu adeilad y crochendy (cafodd yr adeilad gwreiddiol ei ddifrodi gan dân). Derbyniwyd y cynllun safle diwygiedig, yn dangos mynedfa a lleoedd parcio, ar 17 Gorffennaf 2020; derbyniwyd datganiad atodol ar 6 Awst 2020. SOUTHCLIFFE POTTERY, HEOL CREIGIAU, LLANILLTUD FAERDREF, PONTYPRIDD, CF15 9NN.**

Darllenodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys sylwadau ysgrifenedig gan Mr a Mrs Sharples sy'n nodi'u cefnogaeth gyffredinol ar gyfer y cais, gan godi rhai pryderon ynglŷn ag elfennau o'r datblygiad arfaethedig.

Yn unol â'r gweithdrefnau sydd wedi'u mabwysiadu, derbyniodd y Pwyllgor Mr Gareth McDonagh (Ymgeisydd). Cafodd e bum munud i gyflwyno'r cais uchod i'r Aelodau.

Siaradodd yr Aelod Lleol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol J. James, nad yw'n aelod o'r Pwyllgor, am y cais gan fynegi ei gefnogaeth i'r datblygiad arfaethedig.

Aeth y Pennaeth Materion Cynllunio ymlaen i gyflwyno'r cais, ac yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNODD** yr Aelodau gymeradwyo'r cais yn unol ag argymhellion y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**288 CAIS RHIF: 19/0840**

**Cam 2 - Ymestyn Parc Busnes/Diwydiannol ar safle cae gwyrdd oddi ar safle Parc Busnes Llantrisant (cynlluniau diwygiedig wedi'u derbyn ar**

**18/12/19 a 23/04/20). TIR YN NHAL Y FEDW, PARC BUSNES LLANTRISANT, LLANTRISANT, PONT-Y-CLUN, CF72 8LF**

Darllenodd Pennaeth Materion Cynllunio gynnwys sylwadau ysgrifenedig gan Mr J Hope sydd yn siarad o blaid y cais.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Materion Ffyniant a Datblygu.

**289 CAIS RHIF: 20/0394**

**Gosod swyddfa y mae modd ei thynnu i lawr, gan gynnwys toiledau, cegin/ystafell egwyl ac ystafell loceri. I'w gosod ar sail sy'n bodoli eisoes yn dilyn dymchwel adeilad â ffrâm ddur. HEN SAFLE RHONDDA READY MIX CONCRETE, DEPO DINAS, HEOL Y CYMER, DINAS, Y PORTH, CF39 9BL**

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor. Ar ôl trafod y cais, **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais yn unol ag argymhelliad y Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu.

**290 CAIS RHIF: 20/0404**

**Cabinet Telathrebu - Virgin Media**
**1 Y RHODFA, PONTYPRIDD, CF37 4PU**

Yn unol â Chofnod Rhif: 262 o'r Pwyllgor Cynllunio a Datblygu a gafodd ei gynnal ar 6 Awst 2020, ystyriodd y Pwyllgor adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd, a oedd yn amlinellu canlyniad yr ymweliad â'r safle a gafodd ei gynnal ar 18 Awst 2020 mewn perthynas â'r cais a gafodd ei argymell i'w gymeradwyo gan y Cyfarwyddwr Gwasanaeth - Materion Cynllunio.

Cyflwynodd Pennaeth Materion Cynllunio y cais i'r Pwyllgor ac yn dilyn trafodaeth **PENDERFYNWYD** cymeradwyo'r cais, yn unol ag argymhelliad Cyfarwyddwr Gwasanaeth Materion Ffyniant a Datblygu yn amodol ar ddiwygiad Rhif 3 i'r adroddiad sy'n gofyn bod lliw'r cabinet yn newid i fod yn llwyd i sicrhau ei fod yn cyd-fynd â chymeriad a golwg y stryd, yn unol â natur yr ardal gadwraeth.

**291 GWYBODAETH I AELODAU SY'N YMWNEUD Â'R CAMAU GWEITHREDU WEDI'U CYMRYD O DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

**PENDERFYNODD** yr Aelodau dderbyn adroddiad Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Materion Cynllunio – mewn perthynas â Phenderfyniadau Apeliadau Cynllunio a Gorfodi a oedd wedi dod i law, Ceisiadau wedi eu Cymeradwyo a'u Gwrthod gyda rhesymau trwy'r drefn Penderfyniadau wedi'u Dirprwyo, Crynodeb o'r Achosion Gorfodi a Phenderfyniadau Gorfodi trwy'r drefn Ddirprwyo ar gyfer y cyfnod 10/08/2020 hyd at 21/08/2020.

**Daeth y cyfarfod i ben am 4.10 pm**

**Y Cynghorydd S Rees**
**Cadeirydd.**